



Delfryn
Llwynpiod
Llangeitho
Tregaron
Ceredigion
SY25 6TA

Ffôn/Tel: 01974 298 367
Ffacs/Fax: 01974 298 089
E-bost/E-mail: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
Ffôn symudol/mobile: 07929 970 547

CYFARFOD CYNGOR TREF TREGARON
NOS WENER 9 CHWEFROR 2018 AM 7.30 O'R GLOCH
YN Y NEUADD GOFFA

COFNODION CYFARFOD CHWEFROR 2018

1. **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol.

Derbyniwyd adroddiad ar lafar oddi wrth PCSO John Evans a oedd angen ymadael yn gynnar o'r cyfarfod .

PRESENNOL: Cyng. David Bennett (Cadeirydd), Karine Davies, Cyng Catherine Hughes, Arwel Jones, Manon Wyn James, June Owens, Gary Rees a Cyng Rhydian Wilson

2. **YMDDIHEURIADAU:** Cyng Gwilym Jenkins, Ann Jones a Cyng Alun Owen

3. **MATERION PERSONOL**

Cydymdeimlwyd a Cyng Ann Jones a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar.

Cydymdeimlwyd a Cyng Arwel Jones a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar.

4. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL**

Neb

5. **CADARNHAU COFNODION 12 IONAWR 2018**

Cynnig: Cyng Catherine Hughes

Eilio: Cyng Karine Davies

Ychwanegu – Cyng June Owens i rhestr o ymddiheuriadau

6. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

6.1 Sticeri'r Cyngor wedi'u roi ar y bocs diffib ar safle'r mart.

6.2 E-bost wedi'u dderbyn yn cadarnhau wedi i'r Cyngor Sir siarad ag Arolygydd Cynnal a Chadw'r Cyngor a bu iddo nodi ar ôl ystyried y modd yr adeiladwyd y droedffordd gyferbyn a Phopty Pollak o Aeronfa i fynny, ei fod yn debygol fod y droedffordd i'w cynnal a'i chadw ar gost y cyhoedd. Clerc i drefnu bod y gweithiwr strydlyn yn glanhau'r palmant.

6.3 Cyng David Bennett ddim wedi dychwelyd y ffurflen gwneud arolwg gweledol y parc ac yn cynnig gwneud arolwg am y mis i ddod eto.

6.4 Cyng June Owens a Mr Dylan Jones i asesu'r twnnel yn y parc ac ymateb i'r cyfarfod nesaf, ynglŷn â'r cylch lle mae'r plant yn mynd i mewn i'r twnnel drwyddo. Tybed a fyddai modd doddi rwber dros y darn sydd wedi'u ddifrodi neu droi'r cylch rownd bod y darn difrod ar y top.

6.5 Cyng David Bennett ddim wedi cysylltu eto efo Technoleg Taliesin am wefan y Cyngor Tref.

6.6 Agoriad swyddogol y Ganolfan Hamdden Caron Leisure wedi'u gynnal yn ystod y dydd heddiw a phopeth wedi mynd yn iawn. Dymunwyd pob lwc i'r pwyllgor newydd ac estynnwyd llongyfarchiadau iddynt am geisio ar y fenter newydd.

6.7 Cadarnhad wedi'u dderbyn nad oedd y coed lawr o Argoed i Abercoed wedi'u torri nôl efo Ms Beth Herridge, Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir.

- 6.8 Cyng Alun Owen ddim wedi dod i ben i siarad â Mr Eifion Davies, Llyscaron i ymgymryd â gwaith cynrychiolydd cynllun llifogydd cymunedol ac i fod yn bwyt cyswllt efo Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyng Catherine Hughes i fynd i weld Mr Davies i drafod ymhellach.
- 6.9 Dim ymateb wedi'u dderbyn oddi wrth berchnogion Penlan i drafod ymhellach a Mr Downes am y posibilrwydd o'r Eisteddfod 2020 ddefnyddio Penlan ar gyfer safle ychwanegol ar gyfer yr Eisteddfod. Cyng David Bennet i ymweld â'r teulu unwaith yn ragor.
- 6.10 Cadarnhad wedi'u dderbyn bod y sedd wag oedd ar bwyllgor Llywodraethwyr Ysgol Henry Richard 3-16 yn berthnasol i Gyngor Cymuned Lledrod.
- 6.11 Derbyniwyd e-bost oddi wrth Tom Deph-Janiurek yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi archwilio i ba raddau y mae'r ffordd yn ffordd gyhoeddus a lle mae'r ffordd o dan berchnogaeth breifat, ac mae'n ymddangos fod y darn o'r 'droedffordd' ar ochr y ffordd o'r sianel ddraenio y tu blaen i hen adeilad y tafarn (Y Llew Coch) yn nodi'r ffin. Mae'r Cyngor Sir felly'n archwilio pa fesurau all fod yn briodol i'w hystyried gan Awdurdod er mwyn cadw darn y droedffordd ar bwys y ffordd yn glir ar gyfer cerddwyr. Mae opsiynau'n cynnwys cyflwyno bolardiau / gwaharddiad parcio. Fodd bynnag yn y tymor byr o dan gyfraith priffyrdd bydd yn anghyfreithlon gadael cerbyd mewn modd fel y bydd yn peryglu defnyddwyr ffyrdd eraill, fodd bynnag bydd hyn yn fater i'r heddlu ei ystyried. Ni does gan y Cyngor Sir unrhyw bwerau yn y cyddestun yma.
- 6.12 Derbyniwyd e-bost oddi wrth Gari Jones, Gwasanaeth Priffyrdd yn cadarnhau cafodd Cyngor Sir Ceredigion Ganiatâd Cynllunio ar gyfer ymestyn Llwybr Ystwyth, a hynny am bum mlynedd o 2 Rhagfyr 2014. Cyfeirnod y cais cynllunio oedd A140275. Mae'r Cyngor yn dal i ymchwilio i'r dewisiadau o ran cyflawni'r gwaith o fewn yr amser hwn, ac mae'r sefyllfa'n gymhleth ar hyn o bryd ar ôl i berchennog darn o dir sy'n berthnasol godi gwrthwynebiad. Wrth ddyrannu grantiau mae Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar fannau sydd wedi'u dynodi'n rhan o'r cynllun Teithio Llesol neu'n 'Llwybrau Diogel i'r Ysgol' ac felly'n anffodus nid yw'r cynllun hwn yn bodloni'r meini prawf am y tro. Serch hynny, byddwn yn dal yn manteisio ar bob cyfle i sicrhau cyllid.

7. **CYFRIFON**

- 7.1 Cyflog Gweithiwr Strydlun £144.00
7.2 Cyflog Clerc £237.60
7.3 Aswiriant Zurich £1,270.25
7.4 Jeff Jenkins £1,400

Cynnig: Cyng Gary Rees

Eilio: Cyng Rhydian Wilson

8. **ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN**

Gweithiwr strydlun yn parhau i lanhau oddi amgylch y Dref. Wedi glanhau o dan y meinciau ac yn parhau i lenwi'r biniau grit oddi amgylch.

9. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Dim i'w gofnodi.

10. **CANIATAD CYNLLUNIO**

Dim i'w gofnodi.

11. **CYNGOR SIR CEREDIGION**

11.1 Cais am lythyr o gefnogaeth a chymorth ariannol wedi'u dderbyn oddi wrth Gari Jones, Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth, Gwasanaethau Technegol Adain Traffig, Cyngor Sir Ceredigion ers y cyfarfod diwethaf a chytunwyd i anfon y manylion oddi amgylch y cynghorwyr gan ein bod wedi methu a threfnu cyfarfod i bawb fod yn bresennol i gefnogi cais am grant i lwybr diogel i'r Ysgol Henry Richard 3-16. Anfonwyd llythyr o gefnogaeth a chytunwyd i gefnogi £3,000 tuag at y fenter. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Gari Jones.

12. **UN LLAIS CYMRU**

12.1 Derbyniwyd adroddiad ar lafar oddi wrth Cyng David Bennett a fynychodd cyfarfod Ardal Un Llais Cymru ar 24 Ionawr 2018. Cyng David Bennett wedi enwebu Cyngor Tref Tregaron ar gyfer gwobr Cenedlaethol arfer arloesol Un Llais Cymru 2018. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 25 Ebrill 2018.

13. **CYNLLUN LLEOEDD / PLACE PLANS**

Trafodwyd ambell i gynllun lleoedd yn fras ond cytunwyd i gynnal cyfarfod arbennig i drafod y ffordd ymlaen ar Nos Fercher 21 Chwefror 2018 am 7yh yn y Neuadd Goffa.

14. **COMISIWN FFINIAU**

Trafodwyd yr 'Arolwg o drefniadau etholiadol Sir Ceredigion – Adroddiad Cynigion Drafft' a gofynnir i'r cynghorwyr edrych ar y darnau perthnasol i Dregaron ac i drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

15. **GOHEBIAETH**

Derbyniwyd gwahoddiad i'r Cadeirydd agor y tymor bowlio'n swyddogol ar 13 Ebrill 2018 am 6yh – Derbyniwyd y gwahoddiad.

16. **UNRHYW FATER ARALL**

16.1 Soniwyd bod Sam Denton, Hywel Dda Cynghorau Iechyd Cymuned yn mynychu'r cyfarfod ar 13 Ebrill 2018 am 7yh.

16.2 Soniwyd fod y Cyngor Sir am roi Culvert newydd lawr yn Fforest a monitro'r sefyllfa.

16.3 Derbyniwyd cadarnhad fod parseli yn mynd i gael eu gadael yn y Swyddfa Bost yn Spar os na fydd neb gadref i'w derbyn.

16.4 Cytunwyd bod angen rhoi llinellau melyn i fyny rhiw Capel Bwlchgynt.

16.5 Soniwyd fod yna bapur yn mynd i'r cabinet wythnos nesaf i drafod y posibilrwydd o gael parcio yn rhad ac am ddim yn Nhregaron.

16.6 Codwyd y pwynt o pam oedd eisiau symud y groesfan pelican ar y cais 'Safe route to Schools'

16.7 Soniwyd bod angen torri'r clawdd lawr o Catllyrion, Blaencaron lawr i Llainfflur, Blaencaron. Clerc i ysgrifennu at Mr Tom Jones, Caebalcog, Swyddffynnon.

16.8 Trafodwyd sefyllfa'r pwll nofio a'r ffaith ei fod wedi bod ar gau bellach ers dros i 6 mis a soniwyd bod mwg yn dod allan o'r simneiau o hyd sydd yn argymhell fod y dwr dal yn cael ei wresogi'n.